# Newyddlen Menter y Tŵr

Y TŴR PWLLHELI

*Tachwedd 2025*

# Hwyl yr Ŵyl



Y Pared lanterni  yn ymgasglu oflaen Y Tŵr

Eto eleni agorwyd drysau Y Tŵr fel rhan o ddathliadau Hwyl yr Ŵyl Pwllheli. Diolch i'r gwirfoddolwyr am eu gwaith caled roedd Y Tŵr yn ganolbwynt prysur i'r dathliadau Nadoligaidd ac yn gartref i Groto Siôn Corn a bar  llwyddiannus.

**Taith Lantern a Goleuo'r Goeden**

Cychwynnodd y dathliadau ar y nos Wener gydag awyrgylch Nadoligaidd bendigedig wrth i'Dechreuodd y dathliadau nos Wener gyda naws Nadoligaidd arbennig wrth i'r daith lanterni gychwyn o'r Tŵr ac anelu tuag at y Maes i oleuo'r goeden Nadolig, yng nghwmni Band Pwllheli. Roedd yn olygfa hudolus wrth i gerddwyr bach a mawr gario eu lanterni, gan greu llif o oleuadau cynnes ar hyd y dref a gweld Pwllheli yn disgleirio.

**Sion Corn yn cyrraedd ar y tren**

Am 11:13 fore Sadwrn cyrhaeddodd Siôn Corn Pwllheli yn ei ddull traddodiadol, ar y tren yr holl ffordd o Begwn Y Gogledd! Ar ol taith yn ei gar llusg o gwmpas Pwllheli setlodd am weddill y penwythnos yn ei groto hardd yn Y Tŵr.Sgwrsiodd gydag yn agos i 200 o blant bach ddaeth i rannu eu gobeithion am y Nadolig. Llenwyd y Tŵr â chwerthin a chyffro unwaith eto. Diolch i wirfoddolwyr Ysgol Ddawns Pwllheli am drefnu a chynnal y groto. Braf yw gallu cydweithio a chefnogi grwp cymunedol arall yn y dref i ledaenu egni cadarnhaol.



Pared lanterni yn cerdded lawr i'r maes



Sion Corn yn y groto

**Yn y newyddlen hon**


Hwyl yr Ŵyl

Carped newydd

Nadolig 1894 yn y Tŵr – Rhesins a Rwdins Pwllheli

Digwyddiadau ac oriau agor Nadolig 2025

# Hwyl yr Ŵyl

**Bar Prysur a Chodi Arian**

Yn yr un modd ag yr oedd y groto yn denu'r plant, roedd y bar yn denu'r oedolion drwy gydol y penwythnos. Bu ein gwirfoddolwyr yn gweini diodydd Nadoligaidd, oedd yn cynnwys gwin cynnes, Cwrw Llyn a phaneidiau. Cafwyd hefyd raffl a gwerthwyd crefftau nadolig wedi eu gwneud gan un o'r gwirfoddolwyr. Cymerwyd archebion am brintiadau o waith celf a wnaethpwyd gan ddisgyblion ysgolion Cymerau a Glan y Mor mewn gweithdai Pontio'r Cenedlaethau, gyda'r artist o Bwllheli Catrin Williams ar hanes Pwllheli.. Mae'r gwaith celf ar ddangos yn Y Twr. Dewch draw i'n un o'n nosweithiau agored yn ystod mis Rhagfyr neu cysylltwch a ni ar y cyfryngau cymdeithasol am fwy o fanylion.



Bwrlwm yn y Bar. Ystafell dan ei sang gyda pawb yn mwynhau eu hunain

**Diolch i'n Gwirfoddolwyr**

Ni fyddai'r holl fwrlwm hwn yn bosibl heb ein tîm anhygoel o wirfoddolwyr. Yn ystod yr wythnosau cyn y digwyddiad, bu'r criw yn brysur yn clirio, paentio ac addurno a chael Y Tŵr yn barod i groesawu'r dorf. Gweithiodd pawb yn ddiflino drwy'r penwythnos a wneud y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Mwynhaodd y gwirfoddolwyr cymaint a'r cwsmeiriad, gan ateb cwestiynau am y camau nesaf ac annog y cwsmeriaid i rannu eu atgofion am Y Twr a'u syniadau am y dyfodol.

Diolch enfawr i bob un o'r gwirfoddolwyr a phawb a ddaeth draw i gefnogi Y Tŵr. Rydym yn edrych ymlaen at wneud Penwythnos Hwyl yr Ŵyl 2026 hyd yn oed yn fwy!



Dafydd, Carol a Lisa yn brysur tu ol i'r bar

# Carped newydd i'r ystafell fawr

Mae'r ystafell fawr lawr grisiau yn y Tŵr (yr hen Grill) wedi cael trawsnewidiad ar ol derbyn carped newydd, diolch i rodd garedig gan gwmni **Lloriau Ross Hughes**. Mae'r newid hwn wedi gwneud byd o wahaniaeth i'r ystafell gan ei baratoi ar gyfer cyfnod prysur y Nadolig. Rydym yn ddiolchgar iawn i Ross Hughes am eu haelioni, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at greu amgylchedd croesawgar a chysurus i'n hymwelwyr.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r fenter wedi derbyn sawl rhodd hael gan gwmnïau lleol. Diolch i:

**Graeme Harrold, 3E Electrical** – am y camerâu CCTV.

**T W Williams & Sons Ltd** – am eu gwaith ar gyflenwad nwy'r adeilad.

**Cwmni Tan Llyn** – am wasanaethu ac adnewyddu'r offer diffodd tân.

**North Wales Domestic Appliance Centre (Euronics)** – am offer trydanol ar gyfer y gegin.

Mae'r rhoddion ar arbenigedd sydd wedi eu derbyn yn cael ei werthfawrogi'n aruthrol. Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu. Mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r fenter.



**Y carped newydd yn edrych yn wych!**

# Nadolig yn y Tŵr – Cyrens a Rwdins Pwllheli

Mae'n rhaid cyfaddef bod Pwllheli unwaith yn dathlu'r Nadolig mewn ffyrdd llawer mwy creadigol nag a welwn heddiw. Nid y goleuadau, y groto na'r siopa oedd yn creu'r cyffro ond y pethau bach annisgwyl oedd yn llenwi'r Stryd Fawr.

Un trysor o'r archif yw hysbyseb Tower Stores gyferbyn â Gwesty'r Tŵr yn canmol eu 'cyrens glân' fel rhywbeth na ellid ei guro. Cyrens yn ennill ei le mewn pennawd? Ble arall ond ym Mhwllheli!

Ond uchafbwynt Nadolig 1894 ym Mhwllheli oedd Arddangosfa Rwdins y dref o flaen y Tŵr. Daeth ffermwyr o'r ardal i arddangos eu cynnyrch ac enillodd Mr D H Parry o Benllwyn gyda phedair ar hugain o rwdins yn pwyso bron i bedwar cant pwys. Dywed Y Faner fod yr arddangosfa yn un o'r goreuon a welwyd erioed. Mae'n hawdd dychmygu'r dorf yn pwyso a mesur y rwdins fel petaent yn berlau.

Er cymaint mae bywyd wedi newid, mae straeon fel hyn yn ein hatgoffa fod Nadolig Pwllheli wedi bod yn gymysgedd o hiwmor, balchder ac ymdeimlad o gymuned ar hyd y blynyddoedd a boed i hynny barhau!

Robin-Rhys Jones







# Gwirfoddoli

Cofiwch mae digon o gyfleoedd i fod yn rhan o Fenter Y Tŵr- yn enwedig dros y misoedd nesaf wrth i ni agor y drysau a chynnal digwyddiadau. Cysylltwch á ni i drafod ymhellach drwy yrru neges i ytwrpwllheli@gmail.com neu drwy ein cyfryngau cymdeithasol.

Criw Y Twr x